# Astudiaeth achos Ysgol Gynradd Aberteifi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sefydlwyd Ysgol Gynradd Aberteifi yn 2008 yn dilyn ymgyrch i uno'r ysgol fabanod ag Ysgol Iau Aberteifi. Mae'r ysgol wedi bod yn ysgol cyfrwng Cymraeg ers 2013, gyda 421 o ddysgwyr. Mae'r ysgol mewn ardal Dechrau'n Deg, gyda 24 y cant o blant yn gymwys am ginio ysgol am ddim.**

Uwch-dîm rheoli'r ysgol, sy'n cynnwys y pennaeth ac arweinwyr adran, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) ar draws yr ysgol. Sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol o fewn yr ysgol gyda ffocws ar roi'r fframwaith ar waith, ac mae aelod o bob adran yn rhan o'r broses er mwyn gyrru gwelliant drwy'r ysgol. Ers sefydlu'r fframwaith, mae uwch-dîm reoli'r ysgol wedi gweld gwelliant o ran brwdfrydedd staff, maent yn gweithio'n agosach fel tîm ac yn rhannu'r un rhagoriaeth a'r un weledigaeth gyda sylw penodol i'r FfLlRh.

Bu'r uwch-dîm yn adolygu cynlluniau tymor hir a thymor byr yr ysgol yn gyson, gan sicrhau bod cydbwysedd yn elfennau llythrennedd a rhifedd y fframwaith o fewn y cynlluniau dosbarth, a bod cysondeb drwy gydol yr ysgol.

Cynigiwyd hyfforddiant llythrennedd a rhifedd i staff o'r dechrau ac amser digyswllt ar gyfer mapio sgiliau'r fframwaith ar draws y cwricwlwm, gyda chymorth yr uwch-dîm rheoli. Erbyn hyn, mae pob aelod o staff yn gallu gwahaniaethu rhwng llythrennedd ac iaith, a rhwng rhifedd a mathemateg, ac mae'r FfLlRh bellach wedi'i wreiddio yn systemau gwella ansawdd yr ysgol.

Trwy gynllunio gan ddilyn y FfLlRh, mae staff yn sicrhau bod lle a chyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

Er mwyn cefnogi ymhellach y broses o weithredu'r fframwaith a chodi ymwybyddiaeth ohono, cynhaliwyd gweithdai i rieni. Rhoddwyd llyfryn i bob teulu yn esbonio'r fframwaith ac yn rhoi cyngor ynghylch sut y gellir cefnogi datblygiad dysgwyr yn y cartref.

Mae gan yr ysgol ddull cadarnhaol o ran defnyddio asesu ar gyfer dysgu gyda'r FfLlRh. Mae'n defnyddio amrywiaeth o strategaethau er enghraifft hunanasesu a chynnwys datganiadau'r FfLlRh yn llyfrau cyswllt dysgwyr. Defnyddir system dracio i dracio cynnydd. Yn ogystal â hynny mae'r FfLlRh yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad diwedd blwyddyn i rieni, gan roi gwybodaeth ynghylch sut mae'r dysgwyr wedi datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ogystal â'r camau nesaf.

Gan drafod effaith y FfLlRh ar ddysgwyr, dywedodd Donna Hanly, pennaeth Ysgol Gynradd Aberteifi, sy'n arwain ar weithredu'r fframwaith ar ran yr ysgol:

**'Erbyn hyn, mae disgyblion yn llawer mwy hyderus wrth ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o ddefnyddio sgiliau penodol sy'n seiliedig ar lythrennedd a rhifedd, ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn dilyn y ffocws penodol rydym wedi'i roi ar y FfLlRh tu fewn a thu allan i'r dosbarth.'**

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28407